IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

**NOSC 202- Rhif**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR I'R DWYRAIN O HEOL-Y-PARC, GOGLEDD CORNELI, PEN-Y-BONT AR OGWR) 202-**

*Gwnaed* ****** 202-*

*Yn dod i rym* ****** 202-*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir i'r Dwyrain o Heol-y-Parc, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr) 202- a daw i rym ar ***** 202-.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r Plan Safle sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir i'r Dwyrain o Heol-y-Parc, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr) 202-" o dan y cyfeirnod qA2388961 sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

**NWSI 202- NO.**

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND EAST OF HEOL-Y-PARC, NORTH CORNELLY, BRIDGEND) ORDER 202-**

*Made* ****** 202-*

*Coming into Force* ****** 202-*

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(**1**), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Land East of Heol-Y-Parc, North Cornelly, Bridgend) Order 202- and it comes into force on ***** 202-.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"the Council" ("*y Cyngor*") means Bridgend County Borough Council;

"the deposited plan" ("*y plan a adneuwyd*") means the Site Plan entitled "The Stopping Up of Highways (Land East of Heol-Y-Parc, North Cornelly, Bridgend) Order 202-" with reference qA2388961 which accompanies this Order;

"the developer" ("*y datblygwr*") means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted;

"the 1990 Act" ("*Deddf 1990*") means the Town and Country Planning Act 1990.

(**1**) 1990 c. 8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c 19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Cau priffyrdd**

**3.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 5 a 6 o’r Gorchymyn hwn mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau’r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau’r priffyrdd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 31 Gorffennaf 2025 o dan y cyfeirnod P/25/96/BCB ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn.

**Priffyrdd newydd**

**4.** Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y darnau newydd o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980**(1)**, i fod yn briffyrdd i’w chynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy’n gyfrifol amdanynt.

**Y darpariaethau sy’n angenrheidiol neu’n hwylus cyn cau priffyrdd**

**5.** Ni chaniateir cau’r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn—

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy’n dangos sut y mae’r darnau o briffyrdd i’w cau;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu’r darnau newydd o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu’r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau’r priffyrdd er mwyn i’r datblygiad fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr statudol a darparwyr**

**6.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn dyddiad cau’r darn o briffordd, bydd gan yr ymgymerwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â’r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau’r briffordd.

(**1**) 1980 p. 66

**Stopping up**

**3.** Subject to articles 5 and 6 of this Order the Welsh Ministers authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Order and shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 31 July 2025 with reference number P/25/96/BCB and described in Schedule 3 to this Order.

**New highways**

**4.** There will be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the new lengths of highway described in Schedule 2 to this Order and shown by stipple marking on the deposited plan, which are to be highway maintainable at public expense for the purposes of the Highways Act 1980(**1**) and the Council is to be the highway authority responsible for them.

**Provisions necessary or expedient before stopping up**

**5.** The lengths of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until—

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the lengths of highway are to be stopped up;

(b) the developer has provided the new lengths of highway described in Schedule 2 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;

(c) the development described in Schedule 3 to this Order has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the highways to allow the development to proceed; and

(d) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b) and (c) are satisfied.

**Statutory undertakers and providers**

**6.** Where immediately before the date on which the length of highway is stopped up, there is apparatus under, in, on, over, along or across the highway belonging to statutory undertakers, the undertakers shall continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

(**1**) 1980 c. 66

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 202-

*Enw*
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Y darnau o briffyrdd sydd i'w cau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd o'r enw Gibbons Way, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â chyfanswm arwynebedd o 1299 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'A' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o lwybr troed dienw i'r dwyrain o Heol-y-Parc ac i'r gogledd-ddwyrain o Gibbons Way, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â chyfanswm arwynebedd o 241 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'B' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o lwybr troed dienw i'r dwyrain o Heol-y-Parc ac i'r de-orllewin o Gibbons Way, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â chyfanswm arwynebedd o 159 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'C' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd o'r enw Plas Morlais, i'r dwyrain o Heol-y-Parc ac i'r de-ddwyrain o Gibbons Way, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â chyfanswm arwynebedd o 342 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'D' ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**Disgrifiad o'r darnau o briffyrdd newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn**

Darn afreolaidd ei siâp o dir sy'n gyfagos i'r briffordd o'r enw Heol-y-Parc, ac i'r gogledd-ddwyrain ohoni, i'r de o Gibbons Way, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â chyfanswm arwynebedd o 97 o fetrau sgwâr, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'E' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o lain ymyl priffordd sy'n gyfagos i linell cwrb dde-ddwyreiniol pwynt mwyaf

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 202-

*Name*
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Lengths of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway known as Gibbons Way, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 1299 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'A' on the deposited plan.

An irregular shaped length of un-named footpath east of Heol-Y-Parc and northeast of Gibbons Way, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 241 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'B' on the deposited plan.

An irregular shaped length of un-named footpath east of Heol-Y-Parc and southwest of Gibbons Way, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 159 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'C' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway known as Plas Morlais, east of Heol-Y-Parc and southeast of Gibbons Way, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 342 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'D' on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**Description of the lengths of new highway to be provided under this Order**

An irregular shaped length of land adjacent to and northeast of the highway known as Heol-Y-Parc, south of Gibbons Way, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 97 square metres, shown by stipple marking and given the reference 'E' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway verge adjacent to the southeast kerbline of the northern most point of the highway known as Gibbons Way, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 90 square metres, shown by stipple marking and given the reference 'F' on the deposited plan.

gogleddol y brifffordd o'r enw Gibbons Way, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â chyfanswm arwynebedd o 90 o fetrau sgwâr, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'F' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o lain ymyl priffordd i'r gorllewin o'r llwybr troed sy'n cysylltu â phwynt mwyaf gogleddol y brifffordd o'r enw Gibbons Way, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn gyfagos i'r llwybr troed hwnnw, sydd â chyfanswm arwynebedd o 47 o fetrau sgwâr, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'G' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o lain ymyl priffordd i'r gogledd o'r llwybr troed sy'n cysylltu â phwynt mwyaf gogleddol y brifffordd o'r enw Gibbons Way, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn gyfagos i'r llwybr troed hwnnw, sydd â chyfanswm arwynebedd o 31 o fetrau sgwâr, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'H' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o lain ymyl priffordd i'r dwyrain o'r llwybr troed sy'n cysylltu â phwynt mwyaf gogleddol y brifffordd o'r enw Gibbons Way, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn gyfagos i'r llwybr troed hwnnw, sydd â chyfanswm arwynebedd o 70 o fetrau sgwâr, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'I' ar y plan a adneuwyd.

Darn petryalog ei siâp o dir i'r gogledd-ddwyrain o'r brifffordd o'r enw Gibbons Way, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â chyfanswm arwynebedd o 47 o fetrau sgwâr, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'J' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o dir i'r gogledd-ddwyrain o'r brifffordd o'r enw Heol-y-Parc, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, ac sy'n cysylltu â'r priffyrdd o'r enw Gibbons Way a Plas Morlais, sydd â chyfanswm arwynebedd o 144 o fetrau sgwâr, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'K' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o dir i'r gogledd o'r brifffordd o'r enw Plas Morlais, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â chyfanswm arwynebedd o 115 o fetrau sgwâr, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'L' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o dir i'r de o'r brifffordd o'r enw Plas Morlais, Gogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â chyfanswm arwynebedd o 149 o fetrau sgwâr, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddwyd iddo'r cyfeirnod 'M' ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**
**Y Datblygiad**

An irregular shaped length of highway verge west of and adjacent to the footpath connecting with the northern most point of the highway known as Gibbons Way, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 47 square metres, shown by stipple marking and given the reference 'G' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway verge north of and adjacent to the footpath connecting with the northern most point of the highway known as Gibbons Way, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 31 square metres, shown by stipple marking and given the reference 'H' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway verge east of and adjacent to the footpath connecting with the northern most point of the highway known as Gibbons Way, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 70 square metres, shown by stipple marking and given the reference 'I' on the deposited plan.

A rectangular shaped length of land northeast of the highway known as Gibbons Way, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 47 square metres, shown by stipple marking and given the reference 'J' on the deposited plan.

An irregular shaped length of land northeast of the highway known as Heol-Y-Parc, North Cornelly, Bridgend, and connecting the Highways known as Gibbons Way and Plas Morlais, having a total area of 144 square metres, shown by stipple marking and given the reference 'K' on the deposited plan.

An irregular shaped length of land north of the highway known as Plas Morlais, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 115 square metres, shown by stipple marking and given the reference 'L' on the deposited plan.

An irregular shaped length of land south of the highway known as Plas Morlais, North Cornelly, Bridgend, having a total area of 149 square metres, shown by stipple marking and given the reference 'M' on the deposited plan.

**SCHEDULE 3**
**The Development**

Development comprising the minor demolition of external features and construction of a new English Medium School building, associated external facilities and amended accesses on land east of Heol-Y-Parc North Cornelly.

Datblygiad sy’n golygu mân ddymchwel nodweddion allanol ac adeiladu Ysgol Cyfrwng Saesneg newydd, cyfleusterau allanol cysylltiedig a mynedfeydd diwygiedig ar dir i’r dwyrain o Heol-y-Parc, Gogledd Corneli.